Amcanion Gwasanaeth Eiriolaeth Conwy

- Darparu Eiriolaeth gyson o ansawdd da i bobl sy'n cwrdd â'r meini prawf
- Cynrychioli barn unigolion
- Cefnogi pobl yn frwd er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn clust i wrando arnynt wrth i benderfyniadau gael eu gwneud a fydd yn effeithio ar eu bywydau
- Rhoi'r gallu i bobl ddweud eu barn a gwneud cyfraniadau mewn cysylltiad â'u bywydau
- Diogelu ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a'u galluogi i gyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau

Cenhadaeth Wired:
Hybu cydraddoldeb, urddas ac annibyniaeth pobl ddifreintiedig

Cysylltu â'r Gwasanaethau Oedolion:

Ffôn: 0844 880 1500
Ffacs: 0151 670 1600
neu
ebost:
contact@wired.me.uk
www.wired.me.uk

Wired
Ty Connaught
Uned 6
Parc Busnes Riverside
Ffordd Benarth
Conwy
LL32 8UB

Wired

Gwasanaethau Eiriolaeth Oedolion Conwy



Eiriolaeth Annibynnol Wired

Mae Eiriolwr Annibynnol yn rhywun sy'n gallu eich cefnogi i ddweud eich barn, eich helpu i wneud yn siŵr eich bod yn cael clust i wrando arnoch a sicrhau eich bod yn derbyn eich hawliau, eich buddiannau a'r gwasanaethau rydych eu hangen.

Gall Eiriolwr:

- Wrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud
- Eich helpu i gyflwyno eich barn a'ch sylwadau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- Eich helpu i edrych ar opsiynau a thrafod y canlyniadau posibl
- Eich helpu i ganfod o ble y gallwch gael cefnogaeth a chymorth priodol
- Siarad â phobl ac asiantaethau neu sefydliadau ar eich rhan os ydych yn teimlo na allwch chi wneud hynny
- Cynrychioli eich barn fel unigolyn sy'n byw yng Nghonwy

Y Siarter Eirioli

Pwrpas Eglur

Nodau ac amcanion wedi'u datgan yn glir

Annibyniaeth

Mae'r cynllun Eiriolaeth yn annibynnol i sefydliadau statudol

Rhoi Pobl yn Gyntaf

Bydd dymuniadau a diddordebau'r bobl yn gosod cyfeiriad gwaith yr Eiriolwyr

Grymuso

Bydd Wired yn cefnogi hunan-eiriolaeth ac yn rhoi grym i bobl

Cyfle Cyfartal

Bydd Eiriolaeth Wired yn rhagweithiol o ran mynd i'r afael â phob math o annhegwch

Atebolrwydd

Bydd Wired yn monitro'r gwasanaeth Eiriolaeth yn effeithiol

Hygyrchedd

Bydd Wired yn rhoi Eiriolaeth yn rhad ac am ddim i bobl sy'n gymwys i'w derbyn

Cyfrinachedd

Mae gan Wired bolisi cyfrinachedd ac mae'n esbonio dan ba amgylchiadau y gallai gael ei dorri

Eiriolaeth Wired

Bydd Eiriolwyr yn gwybod yn glir beth yw natur eu rôl

Ni fydd Eiriolwyr yn gweithredu y tu allan i'r rôl yma

Bydd Eiriolwyr yn esbonio yr hyn yw Eiriolaeth a'r hyn nad yw'n Eiriolaeth

Bydd Eiriolwyr yn esbonio eu rôl o'r cychwyn

Bydd Eiriolwyr yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig am Wired

Gall staff Wired ymweld â chi yn eich cartref neu mewn lleoliad addas.